# Adroddiad ar

# Ysgol Gymunedol Abercanaid
# Y Parc
# Abercanaid
# Merthyr Tudful
# CF48 1SZ

## Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 03/09/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Abercanaid ym mhentref Abercanaid tua dwy filltir i'r de o Ferthyr Tudful. Agorwyd yr ysgol yn 2003 ac mae 204 o ddisgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed yn ei mynychu ar hyn o bryd. Mae'r nifer ar y gofrestr wedi cynyddu ers yr arolygiad diwethaf. Dros y pum mlynedd diwethaf, bechgyn fu mwyafrif y disgyblion yn yr ysgol. Mae tri dosbarth oedran cymysg a phum dosbarth oedran unigol, gan gynnwys dosbarth meithrin amser llawn. Trosglwyddwyd canolfan adnoddau dysgu'r ysgol ar gyfer disgyblion oedran y Cyfnod Sylfaen i ysgol arall ym Medi 2013.

Mae tua 11% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Mae gan ryw 20% ohonynt anghenion dysgu ychwanegol, sydd hefyd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig neu maent yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol neu'n cael gofal gan yr awdurdod lleol. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel mamiaith ac ychydig iawn ohonynt sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf yn yr ysgol ym Mehefin 2008. Penodwyd y pennaeth ym Medi 1989.

Mae'r gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Gymunedol Abercanaid yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,482 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd ym Merthyr Tudful yw £4,219 a'r isafswm yw £3,257. Mae Ysgol Gymunedol Abercanaid yn safle 19 allan o'r 23 ysgol gynradd ym Merthyr Tudful o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da trwy'r ysgol;
- mae safonau mewn llythrennedd a rhifedd yn effeithiol ym mhob dosbarth;
- mae tuedd o welliant diweddar mewn Saesneg;
- mae ymddygiad disgyblion yn dda;
- mae lefelau presenoldeb yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg;
- mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol a heriol; ac
- mae ansawdd yr addysgu'n dda.

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth sensitif ac yn goruchwylio'r ysgol yn effeithiol;
- mae'r dirprwy bennaeth yn darparu cymorth effeithlon iawn;
- mae pob aelod o'r uwch dîm rheoli'n gweithio gyda'i gilydd yn dda;
- mae'r trefniadau tîm cyfadran yn bodloni anghenion yr ysgol yn dda;
- mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt wybodaeth dda am berfformiad a chyd-destun yr ysgol;
- mae gan yr ysgol weithdrefnau sefydledig a chadarn i arfarnu ei heffeithiolrwydd ei hun; ac
- mae'r ysgol yn gweithio mewn modd adeiladol gydag ystod eang o bartneriaid i wella safonau cyflawniad a lles disgyblion.

## Argymhellion

A1 Gwella lefelau cyrhaeddiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 i sicrhau eu bod yn adlewyrchu cynnydd a chyflawniad disgyblion yn fwy cywir

A2 Codi safonau mewn medrau llafaredd Cymraeg disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

A3 Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth am ddinasyddiaeth fyd-eang a'u dealltwriaeth ohoni

A4 Mynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar gyllideb yr ysgol i sicrhau sefydlogrwydd ariannol tymor hir

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn y ddau gyfnod allweddol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd o'u mannau cychwyn. Ym mhob dosbarth, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn wrandawyr da. Maent yn rhoi eu sylw llawn pan fydd eu hathro'n siarad ac yn gwrando'n ofalus ar syniadau eu partneriaid, wrth weithio mewn parau a grwpiau bach.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau siarad cyfyngedig sydd islaw'r rhai sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Fodd bynnag, yn ystod y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob un ohonynt yn dysgu siarad yn glir a rhugl ag oedolion ac â'i gilydd. Wrth iddynt symud yn eu blaenau trwy gyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad gyda hyder cynyddol ac yn defnyddio geirfa ehangach.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn darllen trwy'r ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, maent yn datblygu dealltwriaeth dda o'r berthynas rhwng llythrennau a seiniau. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn adnabod grwpiau o lythrennau sy'n cyfuno â'i gilydd ac yn defnyddio'u gwybodaeth i ynganu geiriau anghyfarwydd yn dda. Ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 4, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn glir a gyda mynegiant da, gan roi sylw gofalus i atalnodi. Defnyddiant eu gwybodaeth ffonig i fynd i'r afael â geiriau anghyfarwydd yn effeithiol ac maent yn casglu ystyr o gyd-destun y stori'n dda. Tuag at ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn caffael medrau darllen mwy datblygedig, fel brasddarllen a bwrw golwg. Ym Mlwyddyn 6, mae rhai disgyblion yn adnabod adroddiad a allai gynnwys rhagfarn.

Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn caffael rheolaeth dda wrth ddefnyddio pensil ac yn ysgrifennu'n ddestlus, gan ddefnyddio llythrennau wedi'u ffurfio'n dda a llythrennau â bylchau priodol. Maent yn ysgrifennu brawddegau syml gyda phriflythrennau ac atalnodau llawn at ystod o ddibenion. Mae disgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n rhwydd yn estynedig. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda o'u cynulleidfa ac yn addasu eu harddulliau ysgrifennu yn unol â hynny. Ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn defnyddio iaith ffurfiannol yn effeithiol i ysgrifennu storïau byw gyda strwythur clir. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyflwyno'u gwaith yn ddestlus gan ddefnyddio arddull ysgrifen redol ddatblygedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu eu medrau rhifedd. Maent yn caffael strategaethau effeithiol i ateb cwestiynau mathemateg pen yn gyflym ac yn gywir. Maent yn cymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda ar draws y cwricwlwm ac mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn. Datblygant fedrau meddwl da a medrau da o ran datrys problemau.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob un o'r disgyblion yn adio, tynnu, lluosi a rhannu rhifau syml ac yn cyfrif ymlaen ac yn ôl fesul dau, pump a deg i fyny i gant.

Maent yn dyblu a haneru rhifau a'u rhoi yn eu trefn. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod enwau a phriodweddau siapiau sylfaenol ac yn adnabod ffracsiynau syml a chylchdroi. Maent yn llunio siartiau cyfrif, pictogramau a graffiau bloc cywir ac yn defnyddio unedau mesur safonol yn dda.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn lluosi a rhannu rhifau mawr gan ddefnyddio dulliau gwahanol. Maent yn deall am ganrannau, ffracsiynau a degolion ac yn trosi rhyngddynt yn dda. Maent yn mesur hyd, pwysau a chynhwysedd yn gywir. Maent yn deall a chymhwyso'n briodol gysyniadau rhifau negyddol, tebygolrwydd, defnyddio fformiwlâu a phlotio cyfesurynnau. Maent yn casglu a dehongli data'n llwyddiannus mewn ffurfiau gwahanol, fel graffiau llinell a siartiau cylch.

Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio'r Gymraeg yn rhwydd trwy gydol y dydd. Maent yn dechrau adeiladu geirfa eang o rifau, lliwiau a gwrthrychau pob dydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion iau yn gwneud cynnydd cyson mewn ysgrifennu a siarad Cymraeg. Yn y dosbarthiadau hŷn, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol at y Gymraeg, ond maent yn ei chael yn anodd siarad mewn cyd-destunau gwahanol ac yn tueddu i ddibynnu'n ormodol ar batrymau gosod sydd wedi cael eu hymarfer yn dda.

Mae safonau presennol mewn llythrennedd a rhifedd a arsylwyd mewn gwersi ac yn llyfrau disgyblion yn ystod yr arolygiad yn well na'r hyn y mae canlyniadau asesu blaenorol yn ei nodi. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013, mae perfformiad disgyblion yn gosod yr ysgol yn y 50% is ar gyfer llythrennedd ac yn y 25% isaf ar gyfer datblygiad mathemategol o gymharu ag ysgolion tebyg ar y deilliant 5 disgwyliedig. Ar y deilliant 6 uwch, mae perfformiad disgyblion yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch ar gyfer llythrennedd ac yn y 50% is ar gyfer datblygiad mathemategol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion mewn Saesneg dros y pedair blynedd diwethaf ac mewn mathemateg a gwyddoniaeth dros y tair blynedd diwethaf wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf neu'r 50% is yn gyson o gymharu ag ysgolion tebyg ar y lefel 4 ddisgwyliedig a'r lefel 5 uwch.

**Lles: Da**

Mae gan bron bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac ymarfer corff rheolaidd. Maent yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo'u ffitrwydd personol. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus i siarad ag oedolyn os ydynt yn teimlo'n bryderus neu'n ofidus.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac ar y maes chwarae. O oedran ifanc, maent yn dilyn arferion ystafell ddosbarth yn ofalus ac yn symud rhwng tasgau'n synhwyrol. Mae lefelau presenoldeb, sydd tua 96% ar hyn o bryd, yn gwella, ac am y flwyddyn ddiwethaf, maent wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae nifer yr absenoldebau parhaus yn gostwng ac mae nifer yr absenoldebau anawdurdodedig yn isel iawn. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n hwyr yn rheolaidd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd cyfrifoldebau o'u gwirfodd ac yn cymryd rhan weithgar ym mywyd yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn fforwm effeithiol i ddisgyblion gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau. Mae'n gwneud awgrymiadau ac yn codi arian ar gyfer prosiectau i wella'r ysgol, fel y llwyfan awyr agored. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gysylltiadau uniongyrchol gyda'r corff llywodraethol ac ni chaiff etholiadau eu cynnal yn rheolaidd, felly ychydig iawn o ddisgyblion yn unig sy'n cael y cyfle i gymryd rhan.

Mae gan bron bob disgybl agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn ymgymryd yn dda â'u tasgau gosod. Maent yn gweithio ar eu pen eu hunain a gyda disgyblion eraill yn llwyddiannus. Dangosant barch, cwrteisi a phryder at ei gilydd ac at oedolion. Maent yn elwa ar y cysylltiadau effeithiol gyda'r gymuned, gan ennill medrau cymdeithasol da ar gyfer bywyd y tu allan i'r ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Ar sail dull testun sy'n cynnwys diwrnodau thema ac wythnosau ffocws, mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol a heriol i ddisgyblion. Mae'r rhain yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol, yn ogystal â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.

Mae staff yn cynllunio ar y cyd i sicrhau bod y cwricwlwm yn galluogi disgyblion o bob gallu i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol ac adeiladu'n llwyddiannus ar eu dysgu blaenorol, y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Gwnânt drefniadau da ar gyfer cynorthwyo disgyblion y mae eu cynnydd islaw'r hyn sy'n ddisgwyliedig am eu hoedran, neu'n well.

Ceir ystod dda o weithgareddau allgyrsiol y mae nifer dda o ddisgyblion yn eu mynychu. Yn ychwanegol, mae rhaglen gynhwysfawr o ymweliadau ac ymwelwyr yn gwella profiadau disgyblion yn sylweddol. Mae disgyblion hŷn yn elwa ar ymweliadau preswyl â Llundain a chanolfan gweithgareddau awyr agored.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn drylwyr ac effeithiol. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, nid yw athrawon yn herio disgyblion ddigon i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau ehangach. Mae'r cwricwlwm yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddysgu am ddaearyddiaeth, hanes a diwylliant Cymru.

Mae'r ysgol yn gweithredu mewn ffordd gynaliadwy. Mae'n darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddeall ailgylchu a'r angen i ofalu am yr amgylchedd. Ceir pwyllgor eco a sefydlwyd yn ddiweddar, ond mae ei rôl yn gymharol annatblygedig. Mae disgyblion yn dysgu am fywydau pobl mewn gwledydd eraill ac o ddiwylliannau gwahanol. Fodd bynnag, mae eu hymwybyddiaeth o'u rôl fel dinasyddion byd-eang yn gyfyngedig ac nid oes gan yr ysgol unrhyw gysylltiadau ag ysgolion dramor.

**Addysgu: Da**

Mae pob un o'r athrawon yn paratoi gwersi'n drylwyr. Maent yn adnabod disgyblion yn dda, mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer eu cyflawniad ac yn darparu ar gyfer eu gwahanol oedrannau a galluoedd yn briodol. Maent yn trefnu dysgu'n dda,

yn sefydlu arferion effeithiol ac yn cynnal gwersi sy'n symud yn gyflym. Maent yn rheoli amser ac ymddygiad disgyblion yn llwyddiannus. Mae ganddynt wybodaeth bynciol gyfoes a da.

Yn yr arfer orau yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon a staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn agos iawn i hyrwyddo dysgu effeithiol. Maent yn ymgysylltu â disgyblion yn barhaus mewn gweithgareddau heriol sy'n eu hannog i feddwl drostynt eu hunain a gweithio'n annibynnol. Maent yn sefydlu perthnasoedd cadarnhaol iawn gyda disgyblion ac yn defnyddio ystod o strategaethau addysgu a dysgu sy'n eu hysbrydoli i gyflawni. Maent yn canmol a dathlu ymdrechion a llwyddiannau disgyblion yn barhaus.

Mae'r ysgol wedi mireinio'i gweithdrefnau asesu yn effeithiol. Mae'n olrhain ac yn monitro cynnydd disgyblion yn gywir er mwyn nodi anghenion a galluoedd unigol a llywio cynllunio ac addysgu. Mae pob un o'r athrawon yn gosod targedau priodol ar gyfer disgyblion, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd. Maent yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn gyson mewn gwersi ac yn cynnwys disgyblion yn rheolaidd mewn arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod pa mor dda y maent yn gwneud a sut i wella.

Mae pob un o'r athrawon yn marcio gwaith yn gydwybodol a rheolaidd. Maent yn rhoi sylwadau cadarnhaol a chefnogol sy'n aml yn gwahodd disgyblion i ymateb. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn darparu gwybodaeth berthnasol am gyflawniadau eu plant ac maent yn cynnwys targedau priodol ar gyfer gwella. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r cyfleoedd rheolaidd a gânt i drafod cynnydd eu plant gydag athrawon.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'n rhoi blaenoriaeth uchel i gefnogi iechyd a lles ei disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn integreiddio addysg bersonol a chymdeithasol yn llwyddiannus i'r cwricwlwm ac ym mywyd bob dydd yr ysgol. Mae systemau effeithiol ar waith i fonitro ymddygiad disgyblion a gwella presenoldeb. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae lefel y diogelwch ar safle'r ysgol yn dda.

Mae'r ysgol yn cysylltu'n dda â llawer o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol, er enghraifft y seicolegydd addysg a phersonél iechyd, sy'n darparu arweiniad a chymorth da ac yn adlewyrchu anghenion disgyblion yn briodol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol iawn ar gyfer nodi a monitro disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ymweliadau rheolaidd gan yr athro cymorth dysgu yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae staff yn adolygu cynlluniau addysg unigol disgyblion yn rheolaidd ac yn monitro'u cynnydd yn agos. Mae rhieni a disgyblion fel ei gilydd yn cymryd rhan mewn trafod, gosod ac adolygu targedau. Mae'r ffaith fod disgyblion sy'n agored i niwed yn cael eu hintegreiddio'n llawn ym mywyd yr ysgol yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos tawel, cynhwysol a gofalgar yn yr ysgol. Mae’n hyrwyddo agweddau goddefgar yn llwyddiannus i sicrhau bod disgyblion a staff yn rhydd oddi wrth aflonyddwch ac ymddygiad gormesol. Caiff pob disgybl gyfle cyfartal i fanteisio ar bob maes o ddarpariaeth ac adeiladau’r ysgol. Mae pob un o’r disgyblion a’r staff yn parchu ei gilydd. Cânt eu gwerthfawrogi’n gyfartal, waeth beth yw eu cefndir.

Mae’r adeiladau a’r tir a gynhelir yn dda yn bodloni anghenion disgyblion yn dda. Mae pob un o’r ystafelloedd dosbarth yn olau ac ysgogol. Mae arddangosfeydd deniadol ar waliau ar draws yr ysgol yn dathlu gwaith disgyblion yn effeithiol. Mae’r ardaloedd allanol wedi’u datblygu’n dda ac mae disgyblion yn eu defnyddio’n llwyddiannus ac yn rheolaidd ar gyfer dysgu yn yr awyr agored, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, mae’r maes chwarae i’r babanod yn fach ar gyfer nifer y disgyblion y mae angen lle ar eu cyfer.

Ceir ystod dda o adnoddau dysgu o ansawdd da sy’n bodloni anghenion disgyblion yn dda, gan gynnwys llyfrgell â chyflenwad da o lyfrau, cegin i ddisgyblion ac ystafell gelf. Ceir darpariaeth dda a chyfoes ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae’n cynnwys ystafell TGCh ag offer da a nifer ddigonol o liniaduron a llechi i’w defnyddio mewn ystafelloedd dosbarth. Mae’r adnoddau hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau cyfrifiadurol yn dda ar draws y cwricwlwm.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth sensitif ac yn goruchwylio’r ysgol yn effeithiol. Mae wedi sefydlu perthnasoedd cadarnhaol iawn gyda staff, llywodraethwyr a rhieni. Mae’r dirprwy bennaeth yn darparu cymorth effeithlon iawn ac mae’n ymgymryd ag ystod addas o gyfrifoldebau, sydd wedi’u cysylltu’n benodol â chodi safonau a chyflwyno medrau sylfaenol ar draws y cwricwlwm.

Mae pob aelod o’r uwch dîm rheoli’n gweithio gyda’i gilydd yn dda, er eu bod yn cyfarfod yn ffurfiol tua dwywaith y tymor yn unig. Mae hyn yn cyfyngu ar eu rôl gyfunol mewn gwella’r ysgol a chynllunio strategol, er enghraifft o ran y gyllideb. Mae pob un o’r pedwar deiliad swydd addysgu a dysgu yn arwain tîm cyfadran sy’n cynnwys pob un o’r athrawon a’r staff cymorth, yn ogystal â llywodraethwr dynodedig. Mae hyn yn drefniant cydweithredol effeithiol ac yn gweddu i anghenion yr ysgol yn dda, yn enwedig mewn perthynas â monitro safonau a’r cwricwlwm. Mae gan bob un o’r athrawon feysydd cyfrifoldeb, y maent yn eu harfarnu’n effeithiol. Mae’r ysgol yn mynd i’r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn i’r ysgol ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt wybodaeth dda am ei pherfformiad a’i chyd-destun cymharol. Mae mwyafrif ohonynt yn ymweld yn rheolaidd ac yn mynychu digwyddiadau hyfforddi. At ei gilydd, maent yn dwyn arweinwyr yr ysgol i gyfrif yn dda ac yn sicrhau bod yr holl ofynion statudol yn eu lle. Fodd bynnag, mae rhan y corff llywodraethol llawn mewn pennu ac adolygu blaenoriaethau strategol yr ysgol yn gyfyngedig ar y cyfan, er enghraifft, mewn perthynas â’i gweithdrefnau ar gyfer trafod cofnodion pwyllgorau a chynllun datblygu’r ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau sefydledig a chadarn i arfarnu ei heffeithiolrwydd. Mae uwch arweinwyr a staff yn casglu ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol, sy'n cyfrannu'n sylweddol at y broses hunanarfarnu. Er enghraifft, maent yn gofyn am farn disgyblion a'u rhieni'n rheolaidd ac yn dadansoddi ystod eang o ddata cyrhaeddiad yn drylwyr ac yn gywir.

Mae uwch arweinwyr yn monitro ansawdd yr addysgu a'r gwaith yn llyfrau disgyblion ar draws yr ysgol yn rheolaidd ac yn drylwyr. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i adolygiadau cyfnodol gan yr awdurdod lleol ac asiantaethau allanol eraill. O ganlyniad, mae gan bob un o'r staff ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r cyfleoedd ar gyfer gwella.

Ceir cyswllt clir rhwng y broses hunanarfarnu a chynllunio datblygiad yr ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio'r deilliannau hunanarfarnu i nodi a blaenoriaethu cyfleoedd ar gyfer gwella ymhellach. Er enghraifft, mae wedi cyflwyno rhaglen ymyrraeth sy'n arwain at gyrhaeddiad uwch ar gyfer disgyblion mwy abl.

Mae'r prif dargedau yn y cynllun datblygu ysgol presennol yn hylaw ac yn canolbwyntio'n gadarn ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion. Pan fo'n briodol, mae ganddynt feini prawf mesuradwy ar gyfer asesu cynnydd disgyblion. Mae'r cynllun yn nodi'n briodol y rhai sydd â chyfrifoldeb am weithredu, mae'n gosod graddfeydd amser realistig ac yn ystyried unrhyw oblygiadau o ran cost yn glir.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio mewn modd adeiladol gydag ystod eang o bartneriaid i gynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu ac i wella'u safonau cyflawniad a lles. Ceir cyswllt a chyfathrebu da gyda rhieni, er enghraifft trwy gylchlythyrau a'r wefan addysgiadol. Mae sesiynau darllen, lle caiff rhieni a neiniau a theidiau gyfle i weithio ochr yn ochr â disgyblion, yn hyrwyddo medrau llythrennedd disgyblion mewn modd buddiol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau priodol gyda'r gymuned leol. Er enghraifft, mae disgyblion yn canu yn eglwys y plwyf ac mae busnes lleol yn cefnogi digwyddiadau disgyblion i godi arian ar gyfer elusennau. Caiff gwirfoddolwyr effaith gadarnhaol ar les disgyblion a'u brwdfrydedd i ddysgu, yn enwedig trwy'r cymorth y maent yn ei ddarparu yn yr ystafell ddosbarth ac mewn gweithgareddau allgyrsiol, fel y clwb gwau.

Mae trefniadau pontio gyda'r ysgolion uwchradd yn cynnwys cydweithrediad cwricwlaidd a bugeiliol, er enghraifft, mewn prosiect cerddoriaeth a drama ar y cyd. Mae'r cysylltiadau'n effeithiol wrth helpu disgyblion i baratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu. Mae cyfarfodydd safoni gydag ysgolion clwstwr yn sicrhau bod athrawon yn datblygu cysondeb gwell wrth asesu gwaith disgyblion. Mae myfyrwyr ar leoliad o goleg addysg bellach lleol yn cyfrannu'n effeithiol at ddysgu disgyblion hefyd, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer dda o athrawon cymwys a phrofiadol mewn perthynas â'r nifer sydd ar y gofrestr a'r gyllideb. Mae'r strwythur staffio wrthi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd.

Mae gan staff cymorth rolau a chyfrifoldebau priodol a gwnânt gyfraniad gwerthfawr at ddysgu a lles disgyblion. Rhoddir cymorth addas o ran monitro a datblygiad proffesiynol i athrawon sydd newydd gymhwyso. Mae'r trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu yn briodol. Mae'r ysgol yn neilltuo amser rheoli perthnasol ar gyfer uwch arweinwyr bob pythefnos hefyd.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad, sy'n cael eu harwain gan y pennaeth a'r dirprwy bennaeth, yn effeithiol ac yn bodloni gofynion statudol. Maent yn cynnwys pob un o'r athrawon a'r staff cymorth. Mae targedau'n canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Rhoddir hyfforddiant perthnasol i bob un o'r staff, sy'n gysylltiedig â'u targedau rheoli perfformiad.

Mae arferion gweinyddol o ddydd i ddydd yn gweithredu'n effeithiol. Mae'r ysgol yn cyflogi gofalwr amser llawn, sy'n ymgymryd ag ystod o gyfrifoldebau ychwanegol, fel codi arian.

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadeiladau a'i hadnoddau'n dda. Mae'n seilio'i phenderfyniadau am wariant ar flaenoriaethau'r ysgol a chyflawni gwerth gorau. Fodd bynnag, yn bennaf am fod y ganolfan adnoddau dysgu wedi cael ei thynnu'n ôl, mae gan yr ysgol ddiffyg yn ei chyllideb ar hyn o bryd a gytunwyd â'r awdurdod lleol. Mae'r corff llywodraethol yn rhoi cynllun ariannol priodol ar waith i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon.

Er gwaethaf y diffyg presennol, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian, gan fod perfformiad disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth yn dda.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013, mae perfformiad disgyblion islaw cyfartaledd y teulu mewn llythrennedd, datblygiad mathemategol a medrau personol a chymdeithasol ar y deilliant 5 disgwyliedig ac mae uwchlaw cyfartaledd y teulu ar y deilliant 6 mewn llythrennedd yn unig.  O gymharu ag ysgolion tebyg, mae cyrhaeddiad ym mhob un o'r tri maes dysgu yn gosod yr ysgol yn y 50% is neu'r 25% isaf ar y deilliannau disgwyliedig a'r deilliannau uwch, ac eithrio mewn llythrennedd ar y deilliant uwch.  Mae perfformiad ar y ddau ddeilliant islaw perfformiad yn 2012 mewn datblygiad mathemategol, ond uwchlaw perfformiad yn 2012 mewn llythrennedd.  Mewn medrau personol a chymdeithasol, mae perfformiad islaw perfformiad yn 2012 ar y deilliant disgwyliedig, ond uwchlaw perfformiad ar y deilliant uwch.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2013, mae perfformiad disgyblion ym mhob un o'r tri phwnc craidd islaw cyfartaledd y teulu ar y lefel 4 ddisgwyliedig, ond uwchlaw cyfartaledd y teulu mewn Saesneg a mathemateg ar y lefel 5 uwch.  O gymharu ag ysgolion tebyg, mae cyrhaeddiad mewn Saesneg dros y pedair blynedd diwethaf ac mewn mathemateg a gwyddoniaeth dros y tair blynedd diwethaf wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf neu'r 50% is yn gyson ar y lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch fel ei gilydd.  Fodd bynnag, mae tuedd o welliant diweddar mewn Saesneg.

At ei gilydd, mae merched yn tueddu i gyflawni'n well na bechgyn mewn llythrennedd ar draws yr ysgol ac nid yw disgyblion mwy abl bob amser yn dangos eu llawn botensial, er enghraifft mewn mathemateg.  Ar y cyfan, nid yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â disgyblion eraill.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Cynradd (Cyffredinol)

Mae’n dynodi’r meincnod – mae hyn yn gyfanswm o’r holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 96 | 93 | 3 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 97% | 3% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 96 | 90 | 6 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 94% | 6% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 95 | 87 | 8 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i’n poeni neu'n gofidio. |
| | | 92% | 8% | |
| | | 96% | 4% | |
| The school teaches me how to keep healthy. | 95 | 90 | 5 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 95 | 88 | 7 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school. | 90 | 84 | 6 | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 96 | 95 | 1 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 95 | 88 | 7 | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 93 | 76 | 17 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 82% | 18% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 96 | 85 | 11 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 89% | 11% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 89 | 62 | 27 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 70% | 30% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time. | 93 | 73 | 20 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 78% | 22% | |
| | | 84% | 16% | |

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 57 | 47 | 10 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 57 | 52 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 57 | 47 | 10 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 57 | 47 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 57 | 29 | 25 | 0 | 0 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 51% | 44% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 57 | 43 | 14 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 57 | 42 | 15 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 57 | 34 | 22 | 1 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 60% | 39% | 2% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 57 | 37 | 18 | 1 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 65% | 32% | 2% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 57 | 37 | 20 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 65% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 57 | 47 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 55 | 31 | 16 | 3 | 0 | 5 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 56% | 29% | 5% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 57 | 34 | 19 | 4 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 60% | 33% | 7% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 57 | 43 | 10 | 4 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 75% | 18% | 7% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 57 | 27 | 19 | 7 | 1 | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 47% | 33% | 12% | 2% | | |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 57 | 39 | 18 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 54 | 23 | 21 | 2 | 0 | 8 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 43% | 39% | 4% | 0% | | |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 57 | 35 | 17 | 4 | 1 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 61% | 30% | 7% | 2% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 56 | 44 | 11 | 1 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 79% | 20% | 2% | 0% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Peter David Ellis | Arolygydd Cofnodol |
| Christopher Ian Dolby | Arolygydd Tîm |
| Helen Brigid Potts | Arolygydd Lleyg |
| Kay Emanuelli | Arolygydd Cymheiriaid |
| David Thomas | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.